

## **Arolygiad Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl [Dirybudd]**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Abertawe Bro Morgannwg:  
Cefn yr Afon**

18 Awst 2015

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copiâu o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni: Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**Ebost:** [agic@wales.gsi.gov.uk](mailto:agic@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad .....	2
2.	Methodoleg .....	4
3.	Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth .....	5
4.	Crynodeb .....	6
5.	Canfyddiadau.....	7
	Safonau Craidd.....	7
	Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl .....	12
6.	Y camau nesaf .....	16
	Atodiad A.....	17

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru. Ers mis Ebrill 2009, mae AGIC wedi bod yn monitro'r defnydd o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ar ran Gweinidogion Cymru.

Mae ein harolygiadau monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cynnwys ysbytai annibynnol yn ogystal â gwasanaethau iechyd meddwl a gynigir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, rydym yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau, a hynny drwy:

- Ffonitro cydymffurfiaeth â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

Canolbwynt arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- yn ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny



## 2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflawni'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Arsylwi ar yr amgylchedd
- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr â chleifion, perthnasau, eiriolwyr, a chroestoriad o staff
- Archwilio dogfennau gofal, gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Ystyried ansawdd y bwyd

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol sydd â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiaeth â Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn y broses arolygu. Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

### **3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth**

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Gefn yr Afon, Pen-y-bont ar Ogwr, ar 18 Awst 2015, er mwyn monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Gwasanaeth iechyd meddwl i oedolion yw Cefn yr Afon, sy'n darparu gofal adsefydlu i bobl 18 oed a hŷn. Ceir tri thŷ yng Nghefn yr Afon: Tŷ Ogwr, saith gwely; Tŷ Garw, pedwar gwely; a Thŷ Llynfi, saith gwely.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu cofnodion cleifion, siarad â chleifion a staff, adolygu'r amgylchedd gofal, ac arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys un Adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl, ac un aelod o staff AGIC.

## 4. Crynodeb

Gwasanaeth adsefydlu iechyd meddwl yw Cefn yr Afon, sy'n cael ei ddarparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Roedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ar y cyfan, ac roedd cyfleusterau, celfi a gosodiadau priodol ar gael ar gyfer y grŵp cleifion. Fodd bynnag, roedd nifer o anawsterau ynghylch cynnal a chadw a chyfleusterau, ac argymhellwn fod angen mynd i'r afael â'r rhain.

Roedd staff yn awyddus i ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach, a bydd hyn o fudd i gleifion sy'n derbyn gofal yng Nghefn yr Afon.

Mae Cefn yr Afon wedi'i leoli'n briodol er mwyn i gleifion allu cael gafael ar wasanaethau o fewn y gymuned yn rhwydd, fel rhan o'u llwybr gofal adsefydlu.

Roedd awyrgylch digynnwrf a hamddenol yno trwy gydol ein hymweliad. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty a'u bod yn derbyn gofal da, a bod y staff yn barod eu cymwynas. Wrth adolygu dogfennau cleifion, roedd yn amlwg bod cleifion, teuluoedd a gofalwyr yn cyfrannu at ofal y cleifion.

Gwnaethom adolygu sampl o ddogfennau statudol a gweld eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf). Fodd bynnag, nid oedd copïau o ffurflenni statudol ar gael bob amser yng nghofnodion unigol y cleifion.



## 5. Canfyddiadau

### *Safonau Craidd*

#### **Amgylchedd y ward**

Pan gyrhaeddom Gefn yr Afon er mwyn dechrau'r arolygiad, roedd y mynediad i'r ward wedi'i gloi, i rwystro pobl rhag cael mynediad heb awdurdod. Roedd gwybodaeth wedi'i harddangos i esbonio i'r cleifion hynny sy'n cael gadael y ward sut y gallant wneud hynny, os ydynt yn dymuno.

Ar ddiwrnod ein harolygiad dirybudd, roedd Cefn yr Afon yn ymddangos yn lân, yn daclus ar y cyfan, a heb aroglau amhleserus neu glinigol drwyddo draw.

Ceir tri thŷ cysylltiedig yng Nghefn yr Afon: Tŷ Ogwr, Tŷ Garw a Thŷ Llynfi. Roedd gan bob tŷ lolfâ gymunedol, cegin ac ystafell fwytâ. At ei gilydd, roedd mannau cymunedol Cefn yr Afon wedi'u dodrefnu'n dda, ac roedd y gosodiadau a'r ffitiadau'n briodol ar gyfer y grŵp cleifion. Fodd bynnag, yn un o'r lolfeydd cymunedol, roedd y seti wedi cael difrod, ac roedd nifer o seddi wedi treulio ac wedi'u sarnu; bydd angen cael rhai newydd yn eu lle. Roedd lluniau, ffotograffau a gwybodaeth i gleifion wedi'u harddangos o gwmpas Cefn yr Afon.

O bob un o'r tai, roedd gan y cleifion fynediad uniongyrchol at ardd fawr. Roedd yr ardd yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda; roedd y cleifion wedi plannu llyisiau mewn rhan o'r ardd a'r tŷ gwyr. Roedd nifer o feinciau yn yr ardd lle gallai cleifion a pherthnasau eistedd. Dywedodd y staff y byddai'r ardd ar ei hennill o gael rhagor o feinciau a byrddau er mwyn i'r cleifion gael manteisio i'r eithaf ar y man. Roedd prinder prysgwydd yn yr ardd i roi cysgod i'r cleifion hefyd.

Roedd y cleifion yn cael ysmegu yn yr ardd, os oeddent yn dymuno gwneud hynny; fodd bynnag, ni ddarparwyd cysgod i'r cleifion rhag y glaw.

Hysbysodd y staff fod problem barhaus gyda'r toiledau yng Nghefn yr Afon drwyddo draw, wrth iddynt flocio yn sgil problemau carthffosiaeth. Er inni gael gwybod bod y bwrdd iechyd wrthi'n mynd i'r afael â'r mater, mae angen datrys y broblem rhag iddi effeithio ar brofiad y claf yng Nghefn yr Afon.

Dywedwyd wrthym hefyd nad oes glanhawr stêm yng Nghefn yr Afon bellach, at ddiben glanhau lloriau'r ystafelloedd ymolchi, a chafodd hyn effaith ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y broses o lanhau'r mannau hyn.

Roedd yr ystafell glinig yng Nghefn yr Afon yn fach ac nid oedd cyflenwad dŵr ynddi. Yn ogystal, roedd y clinig yn cynnwys cyfarpar i'r adeilad megis

gweinydd cyfrifiadurol a'r blwch rheoli trydan. Roedd hyn yn cyfyngu ar y lle oedd ar gael yn y clinig ac ar adegau yn codi tymheredd yr ystafell yn sylweddol, gan greu amodau gwaith anghyfforddus i'r staff ac yn tanseilio'u gallu i ddarparu gofal i'r cleifion. Fe'n hysbyswyd bod rheolwr Cefn yr Afon wedi tynnu sylw uwch staff o fewn y bwrdd iechyd at y materion hyn; fodd bynnag, ar adeg ein harolygiad, nid oeddent wedi cael eu datrys.

### **Argymhellion**

***Rhaid i'r bwrdd iechyd osod celfi newydd yn y lolfa yn lle'r rhai sydd wedi treulio a'u difrodi.***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried darparu celfi ychwanegol yn yr ardd.***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried darparu cysgod yn yr ardd.***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried darparu cysgodfan i smygwyr.***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y broblem garthffosiaeth yn cael ei datrys.***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod lloriau'r ystafelloedd ymolchi yn gallu cael eu glanhau'n effeithlon ac yn effeithiol.***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ystafell glinig briodol yng Nghefn yr Afon.***

### **Diogelwch**

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yng Nghefn yr Afon. Roedd modd i staff yr ysbyty gael mynediad at bolisi arsylwi'r bwrdd iechyd ar y ward, a thrwy gyfrwng system gyfrifiadurol y bwrdd iechyd. Dywedodd y staff fod lefelau arsylwi'n cynyddu, os oedd angen, er mwyn adlewyrchu'r risg sy'n cael ei beri gan ymddygiad unrhyw glaf.

Mae'r staff yng Nghefn yr Afon wedi derbyn hyfforddiant ar ddefnyddio technegau dad-ddwysáu a dargyfeirio i reoli unrhyw ymddygiad heriol gan gleifion.

Nid oedd y staff yng Nghefn yr Afon yn cario larymau personol; er bod larymau personol ar gael, roeddent yn annigonol ar gyfer y lleoliad. Pe bai larymau'n cael eu canu, ni fyddai modd eu clywed ledled Cefn yr Afon. Felly mae angen newid y system er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.

## **Argymhelliad**

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod system larwm addas wedi'i gosod yng Nghefn yr Afon.***

### **Y tîm amlddisgyblaethol**

Roedd staff craidd yr ysbyty yn cynnwys dwy nyrs gofrestredig a dau gynorthwydd nyrsio yn ystod y dydd, a dwy nyrs gofrestredig ac un cynorthwydd nyrsio yn ystod y nos.

Roedd gan Gefn yr Afon therapydd galwedigaethol a chydlynedd gweithgareddau. Roedd rotâu'r staff yn hyblyg er mwyn bodloni'r gofynion staffio ar gyfer gweithgareddau a gynlluniwyd i'r cleifion.

Rhoddwyd mewnbwn therapiwtig gan seicolegydd, cynorthwydd seicolegol a myfyriwr ar leoliad.

Pan fo angen, mae Cefn yr Afon yn defnyddio staff banc y bwrdd iechyd. Fel arfer, bydd y gwasanaeth yn defnyddio staff sy'n gweithio'n rheolaidd yng Nghefn yr Afon ac felly'n gyfarwydd â'r lleoliad a'r grŵp cleifion.

Roedd ymgynghorydd meddygol, a oedd yn rhan o wasanaeth fforensig ac adsefydlu'r bwrdd iechyd, yn mynychu'r gwasanaeth unwaith yr wythnos. Rhannwyd y cleifion yn bedwar grŵp, a chynhaliwyd cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol i bob claf yn unigol bob mis, gyda chyfle i gynnal cyfarfodydd ychwanegol pan oedd angen.

Soniodd y staff fod gwaith tîm cydweithredol a chefnogol cryf yng Nghefn yr Afon, a chyfleoedd da ar gyfer hyfforddiant a datblygiad. Soniodd y staff am ddyhead cryf y tîm nyrsio i ddatblygu'r gwasanaeth a ddarperir yng Nghefn yr Afon trwy fentrau clinigol. Roedd aelodau o'r tîm wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobr Bevan 2015 ar gyfer iechyd a lles.

### **Preifatrwydd ac urddas**

Roedd gan gleifion yng Nghefn yr Afon ystafelloedd gwely unigol gyda chyfleusterau en suite a chawodydd. Roedd digon o le yn yr ystafelloedd gwely i'r cleifion gadw'u heiddo, ac roeddent yn gallu personoleiddio'u hystafell eu hunain. Roedd modd i'r cleifion gloi drysau eu hystafelloedd gwely o'r tu mewn, ond roedd staff yn gallu eu hagor os oedd angen. Roedd cleifion yn cael asesiad risg er mwyn penderfynu a oeddent yn gallu cael allwedd i'w hystafell wely eu hunain.

Roedd cyfleusterau ymolchi ar gael i'r cleifion ym mhob tŷ. Roedd cyfleusterau golchi dillad ym mhob tŷ fel bod cleifion yn gallu golchi a smwddio eu dillad gyda chymorth y staff.

Roedd hawl gan gleifion i gael mynediad at eu ffonau symudol. Disgwyliwyd i gleifion ddefnyddio'u ffonau yn eu hystafelloedd eu hunain yn hytrach nag yn y manau cymunedol.

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn modd gofalgarg a pharchus. Dywedodd y cleifion y sgwrsiom â nhw fod y staff yn gymwynasgar a'u bod o'r farn eu bod yn cael eu trin yn garedig.

### **Therapiau a gweithgareddau i gleifion**

Mae Cefn yr Afon wedi'i leoli ychydig y tu allan i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n galluogi cleifion i fynd i'r siopau a gwasanaethau eraill yn rhwydd, fel rhan o'u rhaglen adsefydlu. Gwelsom nifer o gleifion yn defnyddio'u hawl i fod yn absennol o'r ysbyty trwy gydol yr ymweliad arolygu.

Roedd rhaglen weithgareddau gan bob claf unigol, yn seiliedig ar ei anghenion a'i ddiddordebau unigol a phwyslais ei adsefydlu. Roedd y tîm nyrsio yn cofnodi'r holl weithgareddau a gynlluniwyd, a phennwyd aelod o staff i roi cymorth a chefnogaeth i'r claf, pan oedd angen. Roedd rota'r staff yn hyblyg fel bod modd rhoi cymorth i gleifion yn ystod y dydd, gyda'r nos, ac ar benwythnosau.

Mae gan yr ysbyty gerbyd er mwyn i staff fynd â chleifion i'r siopau lleol ac ar wibdeithiau cymunedol ymhellach i ffwrdd. Roedd cleifion yn cael eu hannog i ddefnyddio trafndiaieath gyhoeddus cymaint â phosibl, fel rhan o'u rhaglen adsefydlu. Gwnâi'r cleifion weithgareddau cymunedol yn seiliedig ar eu diddordebau personol, a oedd yn cynnwys chwarae a gwylio pêl-droed, gweithio mewn stablau lleol, a chyrsgol addysgol amrywiol.

Credai staff y byddai Cefn yr Afon ar ei ennill o gael cyswllt Wi-Fi trwy gyfrwng rhwydwaith diogel y bwrdd iechyd. Dywedodd y staff y byddai hyn yn galluogi pobl i gysylltu â'r we, gan roi cyfle i staff a chleifion ddefnyddio rhaglenni a safleoedd ar-lein fel rhan o ofal ac adsefydlu cleifion unigol.

### ***Argymhelliad***

***Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu Wi-Fi yng Nghefn yr Afon.***

### **Gofal iechyd cyffredinol**

Byddai iechyd corfforol y cleifion yn cael ei fonitro gan y tîm nyrsio yng Nghefn yr Afon. Roedd cleifion yn defnyddio gwasanaethau meddyg teulu/y tu allan i

oriau, ac yn cael eu hatgyfeirio, yn ôl yr angen, at wasanaethau iechyd corfforol eraill. Roedd y cleifion wedi'u cofrestru â deintyddion lleol, a defnyddient drinwyr gwallt a barbwyr yn y gymuned.

### **Bwyd a maeth**

Roedd gan bob tŷ ei gegin ei hun er mwyn i gleifion baratoi eu bwyd eu hunain. Byddai'r cleifion yn cael eu hasesu i weld a oeddent yn gallu coginio eu prydau yn annibynnol, gyda chymorth y staff, neu a oedd angen iddynt dderbyn prydau a ddarperir. Roedd cleifion hefyd yn gallu cael absenoldeb trwy ganiatâd er mwyn prynu cynhwysion ar gyfer eu prydau bwyd eu hunain.

Roedd staff wedi ymgymryd â chynllun i addysgu'r cleifion am fwyta'n iach wrth i'r cleifion baratoi eu bwyd eu hunain. Siaradodd y staff a'r cleifion yn gadarnhaol am y fenter hon.

Pan oedd angen, roedd modd i'r staff yng Nghefn yr Afon wneud atgyfeiriadau at ddeietegydd a gwasanaeth therapi iaith a lleferydd y bwrdd iechyd.

Roedd modd i'r cleifion gael amrywiaeth o fyrbrydau y tu allan i amser bwyd, ac roedd ffrwythau ffres a diodydd ar gael yn gyfleus. Serch hynny, dywedodd y staff y byddai pob cegin ar ei hennill o gael peiriant dŵr oer fel y gallai cleifion gael dŵr oer yn hawdd, am nad oedd y dŵr a ddeuai o'r tapiau yn ddigon oer bob amser.

### ***Argymhelliad***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried darparu peiriant dŵr oer yng Nghefn yr Afon.***

## ***Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl***

Roedd 17 o gleifion yn derbyn gofal yng Nghefn yr Afon, ac roedd pob un ohonynt yn 18 oed neu'n hŷn. Roedd nifer o gleifion wedi'u cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar adeg ein harolygiad.

Gwnaethom adolygu sampl o'r dogfennau statudol a gweld eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Fodd bynnag, nid oedd pob copi o'r dogfennau statudol ar gael yng nghofnodion y claf. Dylid cadw copiâu o bapurau cadw'r claf yng nghyfrrol bresennol cofnodion y claf, fel y gall staff gael sicrwydd o statws cyfreithiol y claf.

### ***Argymhelliad***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod copiâu o bapurau cadw'r claf yn cael eu cadw yng nghyfrrol bresennol cofnodion y claf hwnnw.***

### **Cadw cleifion**

Wrth adolygu'r dogfennau statudol ar gyfer pob un o'r cleifion a gadwyd dan Adran 2, *Derbyn ar gyfer asesiad*<sup>1</sup>, neu Adran 3, *Derbyn ar gyfer triniaeth*<sup>2</sup>, gwelwyd bod o leiaf un o'r meddygon wedi'i gymeradwyo dan Adran 12<sup>3</sup>. Fodd bynnag, ni chafwyd ym mhob achos bod o leiaf un o'r meddygon wedi cyfarfod â'r claf o'r blaen<sup>4</sup>. Nid yw hyn yn ofynnol dan y Ddeddf<sup>5</sup>, ond lle bo'n ymarferol, fe ddylai'r rheswm pam nad oedd y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy<sup>6</sup> wedi llwyddo i gael argymhelliad meddygol gan ymarferydd meddygol a oedd wedi cwrdd â'r claf o'r blaen gael ei nodi ar bapur cadw HO2<sup>7</sup>. Ni wnaed hyn.

Ym mhob achos, roedd y dogfennau statudol yn nodi pam mai cadw'r claf o dan y Ddeddf oedd y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gofal.

---

<sup>1</sup> Adran 2 – wedi'i dderbyn ar gyfer asesiad, claf wedi'i gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

<sup>2</sup> Adran 3 – wedi'i dderbyn ar gyfer triniaeth, claf wedi'i gadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

<sup>3</sup> Meddyg a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru (neu'r Ysgrifennydd Gwladol) dan y Ddeddf fel un sydd â phrofiad arbennig o wneud diagnosis neu drin anhwylder meddyliol. Mewn gwirionedd, mae byrddau iechyd lleol yn gwneud y penderfyniadau hyn ar ran Gweinidogion Cymru.

<sup>4</sup> Pan fo hynny'n ymarferol, dylai un o'r meddygon sy'n argymhell cadw claf fod wedi cwrdd â'r claf yn flaenorol – Adran 12(2) o'r Ddeddf.

<sup>5</sup> Dywed Adran 12(2) y dylai o leiaf un argymhelliad meddygol gael ei wneud gan ymarferydd meddygol cofrestredig sydd wedi cyfarfod â'r claf o'r blaen, pan fo hynny'n ymarferol.

<sup>6</sup> Gweithiwr proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Ddeddf ac sydd wedi'i gymeradwyo gan awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol i gyflawni nifer o swyddogaethau dan y Ddeddf.

<sup>7</sup> Papur cadw sydd i'w gwblhau gan y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer cadw claf dan Adran 2.

Wrth asesu'r cleifion ar gyfer eu cadw dan Adran 2 ac Adran 3, roedd y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer pob achos wedi nodi p'un a oedd wedi cysylltu â pherthnasau agosaf y claf<sup>8</sup>.

#### **Adran 4 – Cais i gael asesiad mewn achos brys<sup>9</sup>**

Pan oedd cleifion yn cael eu cadw i ddechrau dan Adran 4 y Ddeddf, nid oedd argymhelliad meddygol yn cael ei ddarparu bob amser gan ymarferydd a oedd wedi cwrdd â'r claf o'r blaen. Nid yw hyn yn ofynnol dan y Ddeddf<sup>10</sup>, ond lle bo'n ymarferol, fe ddylai'r rheswm pam nad oedd y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy wedi llwyddo i gael argymhelliad meddygol gan ymarferydd a oedd wedi cwrdd â'r claf o'r blaen gael ei nodi ar bapur cadw HO2<sup>11</sup>. Ni wnaed hyn.

Ym mhob achos y digwyddodd hyn, dywed y cofnodion fod y derbyniad yn un brys ac nad oedd yn ddiogel i aros am ail argymhelliad meddygol oherwydd byddai oedi yn peri i iechyd y claf ddirywio, yn unol ag Adran 4(2) y Ddeddf.

Ym mhob achos, cafwyd ail argymhelliad meddygol, gan feddyg Adran 12, o fewn 72 awr i gadw'r claf o dan Adran 2 y Ddeddf. Nododd fod y claf yn dioddef o anhwylder meddyliol ac y cafodd ei gadw er ei ddiogelwch ei hun, ac nad oedd yn briodol ei dderbyn yn anffurfiol. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth bob amser bod y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy wedi hysbysu perthynas agosaf bod y claf wedi cael ei gadw dan Adran 2 y Ddeddf, yn unol â'r hyn a nodir ym mharagraff 5.9 yn y Cod Ymarfer.

#### **Adran 5 – Cais mewn perthynas â chlaf sydd eisoes yn yr ysbyty<sup>12</sup>**

Pan oedd cleifion wedi cael eu cadw i ddechrau o dan Adran 5(2) y Ddeddf, roedd yn eglur bod pob claf yn glaf preswyl ar adeg defnyddio'r Ddeddf. Roedd y cais yn achos pob claf wedi'i weithredu gan ei glinigydd cyfrifol neu gan ddirprwy ei glinigydd cyfrifol, yn unol ag Adran 5(3). Ym mhob achos, cafwyd ail argymhelliad meddygol o fewn 72 awr i gadw'r claf dan Adran 2 y Ddeddf.

---

<sup>8</sup> Unigolyn a ddiffinnir gan Adran 26 y Ddeddf, sydd â hawliau a phwerau penodol dan y Ddeddf o ran claf y mae'n berthynas agosaf iddo.

<sup>9</sup> Cais i gadw claf er mwyn asesu anhwylder meddyliol a wneir ar sail un argymhelliad meddygol yn unig mewn achosion brys

<sup>10</sup> Dywed Adran 4(3) y dylai'r argymhelliad meddygol gael ei wneud gan ymarferydd meddygol cofrestredig sydd wedi cyfarfod â'r claf o'r blaen, pan fo hynny'n ymarferol.

<sup>11</sup> Papur cadw sydd i'w gwblhau gan y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer cadw claf dan Adran 4.

<sup>12</sup> Y pwerau yn Adran 5 y Ddeddf sy'n caniatáu i gleifion preswyl mewn ysbyty gael eu cadw dros dro fel y gellir penderfynu a ddylid gwneud cais i'w cadw ai peidio.

Nid oedd copïau o adroddiadau'r Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy wedi'u cadw, bob amser, gyda dogfennau cadw'r claf unigol. Mae'n arfer da i gadw copïau o adroddiadau'r Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy gyda'r papurau cadw.

### ***Argymhelliad***

***Rhaid'r bwrdd iechyd sicrhau bod copïau o adroddiadau'r Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yn cael eu cadw gyda dogfennau cadw'r claf unigol.***

### **Cadw parhaus**

Pan fu claf yn destun adnewyddu cyfnod cadw, roedd y ffurflenni rhagnodedig cywir wedi cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol. Roedd dogfennau statudol yn nodi pam mai cadw'r claf o dan y Ddeddf oedd y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gofal i'r claf o hyd.

### **Apelio yn erbyn cadw claf**

Gwelsom dystiolaeth bod cleifion wedi cael eu hysbysu am eu hawl i apelio yn erbyn cael eu cadw; roedd hi'n amlwg pe byddai'r cleifion am apelio i'r Tribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl y byddai'r broses briodol yn cael ei dilyn. Roedd cofnod ar gael i ddynodi bod gwrandawiaid rheolwyr yr ysbyty yn cael eu cynnal, fel sy'n ofynnol, er mwyn adolygu cyfnod cadw'r cleifion.

### **Adran 132 – darparu gwybodaeth<sup>13</sup>**

Roedd dystiolaeth glir bod y cleifion yn derbyn gwybodaeth reolaidd am eu cadw ac am eu hawliau o dan y Ddeddf. Pan oedd cleifion yn gwrthod cyfathrebu â'r staff, neu os nad oeddent yn gallu deall y wybodaeth, byddai'r staff yn ceisio rhoi'r wybodaeth i'r cleifion yn rheolaidd.

### **Cydsynio i driniaeth**

Roedd darpariaethau Cydsynio i Driniaeth Adran 58<sup>14</sup> y Ddeddf wedi eu cofnodi a'u hawdurdodi'n gywir yn achos cleifion a oedd yn ddarostyngedig iddynt. Roedd copïau o'r tystysgrifau cydsynio i driniaeth yn cael eu cadw gyda Chofnod Rhoi Meddyginiaethau'r cleifion (siart MAR), lle'r oedd hyn yn berthnasol.

---

<sup>13</sup> Mae Adran 132 Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn rhoi cyfrifoldeb ar reolwyr yr ysbyty i gymryd pob cam ymarferol i sicrhau bod pob claf dan gadwad yn derbyn gwybodaeth am ei hawliau.

<sup>14</sup> Ffurf ar driniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol, ac mae'r rheolau arbennig yn Adran 58 y Ddeddf yn berthnasol iddi. Golyga hyn roi meddyginiaeth ar gyfer anhwylder meddyliol i gleifion sy'n cael eu cadw yn dilyn cyfnod cychwynnol o dri mis.



## **Caniatâd i fod yn absennol o dan Adran 17**

Roedd pob ffurflen awdurdodi absenoldeb dan Adran 17<sup>15</sup> wedi'i hawdurdodi gan glinigydd cyfrifol y claf, a nodwyd terfyn amser neu ddyddiad adolygu. Roedd yr holl ffurflenni awdurdodi absenoldeb, a oedd wedi dod i ben ac i'w canfod yn ffeiliau'r claf, wedi'u marcio'n glir fel rhai nad oedd bellach yn ddilys.

Yn cyd-fynd â'r ffurflenni awdurdodi absenoldeb dan Adran 17 oedd asesiadau risg a oedd yn nodi'r peryglon, y tebygrwydd o rywbeth yn digwydd, a'r effaith.

## **Cleifion cyfyngedig**

Pan oedd cleifion wedi'u cadw dan Ran 3 y Ddeddf, Cleifion sy'n Gysylltiedig ag Achos Troseddol neu sydd o dan Ddedfryd, roedd copïau o'r dogfennau a oedd yn gysylltiedig â'u cadw ar gael yn eu ffeiliau.

---

<sup>15</sup> Caniatâd i adael tiroedd yr ysbyty sy'n cael ei awdurdodi gan glinigydd cyfrifol y claf.

## 6. Y camau nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad, ac i gyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yng Nghefn yr Afon yn cael eu hymdrin, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'i werthuso fel rhan o'r broses barhaus o fonitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

## Atodiad A

Iechyd Meddwl/ Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella

Bwrdd Iechyd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Lleoliad: Cefn yr Afon

Dyddiad yr arolygiad: 18 Awst 2015

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<b>Safonau Craidd</b>				
8	Rhaid i'r bwrdd iechyd osod celfi newydd yn y lolfâ yn lle'r rhai sydd wedi treulio a'u difrodi.	O ran y celfi sydd wedi treulio, gwnaed adolygiad o holl seddi'r lolfeydd cymunedol gan Reolwr yr Uned. O ganlyniad, bydd yr eitemau hynny na fydd yn gallu cael eu glanhau'n effeithiol gan ein cydweithwyr o'r Adran Gwasanaethau Gwesty yn cael eu tynnu ymaith, a rhoddir rhai newydd yn eu lle.	Kath Hart, Rheolwr yr Uned	Bydd detholiad o gadeiriau, a fydd yn cynnwys soffas i ddau a thri pherson, yn cael eu prynu trwy gronfeydd elusennol y cytunir arnynt.

				Amcangyfrifir y bydd yr eitemau hyn wedi cael eu cyflenwi erbyn 30 Tachwedd 2015.
8	Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried darparu celfi ychwanegol yn yr ardd.	Mae'r Rheolwr Uned wedi hysbysu y byddant yn dewis celfi addas i'w cynnwys yng ngardd yr uned. Byddant yn cynnwys meinciau a byrddau, ynghyd ag eitemau ychwanegol megis parasolau er mwyn cynnig cysgod yng nghanol haf a chreu awyrgylch braf, caeedig o gwmpas y man eistedd.	Kath Hart, Rheolwr yr Uned	I'w darparu trwy gronfeydd elusennol.  Amcangyfrifir y bydd yr eitemau hyn wedi cael eu cyflenwi erbyn 30 Tachwedd 2015.
8	Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried darparu cysgod yn yr ardd.	Aeth cydweithwyr o Adran Ystadau'r bwrdd iechyd i'r uned ar 1 Hydref 2015 er mwyn adolygu'r opsiwn o gael cysgod canopi yn yr ardd. Fel rhan o'r cynigion hyn, awgrymwyd y gellid cael cysgod rhag yr haul drwy ddefnyddio'r fframyn pren sy'n sownd wrth ochr yr	David Swetman, Rheolwr Ystadau  Kath Hart, Rheolwr yr Uned	Dynodwyd dwy ran o'r fframyn pren, ger drysau cefn yr uned, er mwyn peidio effeithio ar y draeniau a'r

		uned.		<p>mynediad at gafnau'r to canol.</p> <p>Mae contractiwr wedi galw ac rydym yn disgwyl am ddyfynbris.</p> <p>A bod y tywydd yn caniatáu, dynodwyd dechrau Rhagfyr 2015.</p>
8	Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried darparu cysgodfan i smygwyr.	Bydd cysgodfan smygu yn cael ei hymgorffori yn y dyluniad uchod a bydd yn sownd wrth y waliau presennol.	David Swetman, Rheolwr Ystadau  Kath Hart, Rheolwr yr Uned	A bod y tywydd yn caniatáu, dynodwyd dechrau Rhagfyr 2015.
8	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y broblem garthffosiaeth yn cael ei datrys.	O ran y problemau carthffosiaeth y tu allan i'r uned, rhoddwyd mesurau dros dro ar waith lle mae aelod o'r tîm ystadau yn mynychu'n ddyddiol er mwyn pwmpio'r system yn glir. Eto i gyd, hysbysodd y Rheolwr Ystadau	David Swetman, Rheolwr Ystadau	Dywedodd ein cydweithwyr Ystadau fod disgwyl i'r pwmp newydd gael ei gyflenwi a'i osod

		fod pwmp gwasanaeth newydd gyda phanel rheoli wedi cael ei archebu er mwyn datrys y mater.		cyn diwedd mis Hydref 2015.
8	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod lloriau'r ystafelloedd ymolchi yn gallu cael eu glanhau'n effeithlon ac yn effeithiol.	Dywedodd Cydlynnydd y Gwasanaethau Gwesty fod glanhau lloriau'r ystafelloedd ymolchi mewn modd arbenigol bellach wedi'i ailgyflwyno i'r rhaglen lanhau.	Gareth Brown, Rheolwr Gwasanaethau Cymorth	Wedi'i gwblhau, ond yn parhau.
8	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ystafell glinig briodol yng Nghefn yr Afon.	Ceir ystafell driniaeth yn yr uned eisoes, ar y llawr cyntaf. Ond defnyddir yr ystafell hon hefyd yn brif ganolfan gyfrifiadurol yr uned, ac nid oes cyfleusterau golchi dwylo. Dyluniwyd yr uned i annog cleifion i fyw'n annibynnol, ac i hunanfeddyginiaethu lle bo'n bosibl, ond nid yw hyn yn ymarferol bob amser, ac mae angen cynyddol i ddefnyddio'r ystafell ar gyfer fflebotomi ac ati, yn ôl anghenion y cleifion. Edrychwyd ar opsiynau eraill ar gyfer y ddarpariaeth hon gan yr Adran Ystadau yn flaenorol, a dywedon nhw nad oedden nhw'n gallu gosod		Galwodd cydweithwyr o Adran Gyfalaf y bwrdd iechyd yn yr uned ar 14 Hydref 2015. Trefnwyd ymweliad pellach ar gyfer diwedd mis Hydref, a bydd contractiwr plymio yn adolygu'r gollyngfeydd gwastraff.

		<p>cyfleusterau priodol ar gyfer golchi dwylo yn yr ystafell hon, yn sgil cynllun presennol yr uned.</p> <p>Felly, gwnaed cais cyfalaf er mwyn archwilio cynigion i ailwampio'r ystafell staff bresennol ar y llawr cyntaf a'i gwneud yn ystafell driniaeth benodedig, gyda baddon addas i olchi dwylo yn unol â manyleb HML, a digon o unedau storio er mwyn iddi weithredu'n gymwys fel ystafell driniaeth.</p>		<p>Bydd cynnydd yn cael ei adolygu yn nechrau mis Tachwedd yn y Cyfarfodydd Cyfleusterau lleol, misol.</p>
9	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod system larwm addas wedi'i gosod yng Nghefn yr Afon.</p>	<p>Mae Rheolwr yr Uned wedi dynodi bod proses wedi cael ei chyflwyno bellach a fydd yn darparu system ddiogelwch ychwanegol i staff. Problem flaenorol ynghlwm wrth larymau personol i staff oedd nad oedd modd eu clywed ledled yr uned, ond cywirwyd hyn drwy osod dalwyr drws tân sydd bellach yn creu amgylchedd agored i'r staff fedru tynnu sylw os oes angen. Ar ben</p>	<p>Kath Hart, Rheolwr yr Uned</p>	<p>Cwblhawyd</p>

		hynny, darparwyd rhagor o setiau ffôn ym mhob uned, sydd â chyfleuster i wib-ddeialu'r prif swyddfa a'r unedau cyfagos a bod angen cymorth. Hefyd, mae Rheolwr yr Uned wedi tynnu sylw at brotocol sy'n cael ei ddrafftio ar gyfer system saffach o weithio, rhag i rywun gael ei ynysu.		
10	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu Wi-Fi yng Nghefn yr Afon.	Yn dilyn trafodaethau ag Adran TG y bwrdd iechyd, cwblhawyd cynnig prosiect cychwynnol ar gyfer rhaglen gyfalaf. Ystyrir y bydd y fframwaith technoleg ddigidol hwn yn helpu i wella profiadau a chanlyniadau'r cleifion trwy fod gwasanaethau'n fwy effeithlon ac arferion gwaith y staff yn cael eu defnyddio'n well, gan ategu proses o wneud penderfyniadau ar y cyd.	Lee Evans, Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol	I'w adolygu yn nechrau Tachwedd 2015 yn y Cyfarfodydd Cyfleusterau lleol, misol.
11	Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried darparu peiriant dŵr oer yng Nghefn yr Afon.	Yn dilyn adolygiad safle gan Princes Gate Cool Water Cyf, dynodwyd bod tair uned hidlo dŵr, a gyflenwir trwy'r prif gyflenwad, yn addas i'w gosod yn yr uned.	Kath Hart, Rheolwr yr Uned  Lee Evans, Rheolwr Cyffredinol	I'w darparu trwy gronfeydd elusennol.  I'w adolygu yn



			Cynorthwyol	nechrau Tachwedd 2015 yn y Cyfarfodydd Cyfleusterau lleol, misol.
<b>Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl</b>				
12	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod copïau o bapurau cadw'r claf yn cael eu cadw yng nghyfrol bresennol cofnodion y claf hwnnw.	Caiff hyn ei ategu trwy gyfrwng Rheolwr yr Uned. Mae'r papurau cadw bellach wedi cael eu ffeilio'n gymwys yng nghyfrol bresennol cofnodion y claf unigol.  Penodwyd Clerc Ward ar gyfer yr uned a fydd yn cynorthwyo gyda'r broses hon ac yn monitro'r drefn o gofnodi'n gywir.	Kath Hart, Rheolwr yr Uned	Wedi'i gwblhau, ond yn parhau.
12	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod copïau o adroddiadau'r Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yn cael eu cadw gyda dogfennau cadw'r claf unigol.	Caiff hyn ei ategu trwy gyfrwng Rheolwr yr Uned. Bydd cydweithwyr Gofal Dirybudd yn cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau yn y maes hwn. Bydd papurau Adran 4 ac Adran 5(2) y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy, ymlaen i ffurflenni H10, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Clerc y Ward. Bydd hyn yn rhan o adolygiad o ran gyfreithiol y ffeil, gyda	Kath Hart, Rheolwr yr Uned	Wedi'i gwblhau, ond yn parhau.

		chyfraniad gan Adran y Ddeddf Iechyd Meddwl.		
--	--	--	--	--